



PROSIECT

GREAT BEAR LINK 56

CLEIENT

SMART STAGE

GWERTH Y CONTRACT

£1.1M

Y NOD

Dewiswyd yr Hollingsworth Group i addasu man derbyn nwyddau wrth gefn y warws dosbarthu yma.

Roedd Great Bear wedi sicrhau cleient allweddol newydd ac roedd angen i'r cyfleusterau fod yn weithredol erbyn diwedd mis Gorffennaf 2013.

Roedd caffael a chynllunio'n heriau mawr i gychwyn y prosiect ar y safle. Roedd y gwaith dur strwythurol, mecanweithiau lefelu doc a llochesi oll yn eitemau yr oedd yn rhaid aros yn hir amdanynt.

Ochr yn ochr â'r prosiect yma hefyd roedd rhaglen osod fewnol fawr. Byddai angen gorchuddio'r gwaith torri yn y warws er mwyn atal y llwch rhag lledaenu ac amharu ar weddill y safle.





Hollingsworth Group Ltd
St. Ives Way
Engineer Park
Sandycroft
Sir y Fflint CH5 2QS

Ffôn: 01244 539922

Ffacs: 01244 538504

www.hollingsworthgroup.co.uk

Y DULL

O gychwyniad stond aeth yr Hollingsworth Group ati i gynllunio ac adeiladu 7000m² o fuarth allanol ar gyfer llwytho wagenni yn cynnwys canopi cladin a gwaith dur, cilfan lwytho gyda 9 lefelydd doc newydd wedi eu torri i mewn i'r warws oedd yno'n barod a drysau mynediad lefel newydd.

Cynlluniwyd y broses gyfan ar gyfer rhaglen 12 wythnos. Ar yr un pryd, roedd y warws yn cael ei aildrefnu i'r cleient newydd ac roedd yr Hollingsworth Group yn gweithio ochr yn ochr â gwaith gosod taenellwyr a rheseli.

Y CANLYNIADAU

Gohiriwyd y dyddiad cychwyn gan adael 9 wythnos ar gyfer y rhaglen ar y safle

Yn ystod y gwaith adeiladu daethpwyd ar draws tanc dŵr mawr a sylfeini ffoundri wrth gloddio a thynnwyd 1000m³ yn ychwanegol o goncrit wedi'i atgyfnerthu'n drwm o'r safle.

Cwblhawyd y prosiect ar 29/06/2013 a chlodwyd llawer iawn o gynnyrch drwy'r fynedfa newydd i mewn i'r warws ar 1/07/2013

CRYNODEB

Rheolwyd y prosiect gan dîm Legat Owen o Gaer a chytunwyd ar y gyllideb derfynol ar ôl ei gwblhau gyda chanmoliaeth fawr.

Hefyd, cadarnhaodd Great Bear mai Hollingsworth Group yw'r Contractiwr dewisedig ar gyfer y gwaith ar draws eu heiddo i gyd.